Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bryn Clwyd

Llandyrnog
Sir Ddinbych
LL16 4HG

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bryn Clwyd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bryn Clwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 48 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 39 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 23.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 12.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/02/2017 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 23/06/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Bryn Clwyd yn ysgol wresog, gyfeillgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus, yn ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn rhagorol, ac maent yn dangos parch canmoladwy at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn mwynhau dysgu ac yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae’r ysgol wedi’i ffedereiddio ag Ysgol Gellifor, sydd wedi’i lleoli gerllaw. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhannu corff llywodraethol a phennaeth. Mae staff ar bob lefel yn gweithio gyda’i gilydd yn agos, er enghraifft i gynllunio gweithgareddau dysgu difyr a datblygu’r amgylchedd dysgu.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dosturiol ac effeithiol. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, y mae’n ei rhannu’n effeithiol ar draws cymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth i werthuso gwaith yr ysgol ac mae ganddynt hanes cadarn o wneud gwelliannau effeithiol. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth a her bwrpasol.

Un o gryfderau arbennig yr ysgol yw ei darpariaeth anogol, sy’n cefnogi lles emosiynol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae staff yn creu amgylcheddau tawel a diogel ac yn darparu cymorth personoledig sy’n helpu disgyblion i deimlo’n ddiogel ac yn barod i ddysgu.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu difyr, gan gynnwys defnydd pwrpasol o’r awyr agored, sy’n datblygu medrau a diddordebau disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig ac yn elwa ar y cyfleoedd amrywiol hyn. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant darllen cryf, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg. Mae gallu mwyafrif y disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd yn gyfyngedig, a megis dechrau datblygu y mae darpariaeth i gefnogi datblygiad disgyblion yn y Gymraeg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol dros gyfnod, ond mae cyfleoedd i gymhwyso’r medrau hyn ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau dilys yn gyfyngedig. Mae adborth athrawon, ar adegau, yn cynorthwyo disgyblion i wella’u gwaith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw bob tro’n canolbwyntio’n ddigon da ar agweddau penodol ar waith disgyblion y mae angen eu gwella.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn gyson

A2. Sicrhau cyfleoedd cyson a phwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3. Parhau i ddatblygu medrau disgyblion wrth siarad Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Nodweddir Ysgol Bryn Clwyd gan ei hamgylchedd croesawgar a chyfeillgar lle mae pawb yn cefnogi ac yn gofalu am ei gilydd. Ceir ymdeimlad nodedig o fod yn rhan o un teulu hapus. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda, ac maent yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Maent yn dangos parch a chwrteisi at eu cyfoedion ac oedolion, a bron yn ddieithriad, mae eu hagweddau tuag at bob agwedd ar fywyd ysgol yn gadarnhaol.

Mae'r pennaeth yn arweinydd tosturiol ac ymroddgar sydd â gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol wedi'i hymgorffori yn egwyddor cynorthwyo disgyblion i ddatblygu gwreiddiau i dyfu ac adenydd i hedfan. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ohono'i hun a phobl eraill. Mae cyfrifoldebau arwain wedi cael eu dyrannu'n bwrpasol i staff, ac maent yn gweithio'n ddiwyd i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel hyrwyddo presenoldeb rheolaidd disgyblion yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso darpariaeth yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ac mae cynllunio gwelliant yr ysgol yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn yn briodol. Mae gan arweinwyr hanes cryf o ysgogi newid parhaol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion.

Ceir diwylliant dysgu proffesiynol cryf yn yr ysgol. Mae staff yn rhannu arfer effeithiol ar draws y ffederasiwn yn rheolaidd, fel trafod darparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr. Mae llywodraethwyr yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n ystyrlon at werthusiadau o ddarpariaeth yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella ymhellach.

Un o gryfderau penodol yr ysgol yw sut caiff lles disgyblion ei gefnogi'n effeithiol o fewn amgylchedd hynod anogol. Mae gan staff ddyheadau uchel ar gyfer disgyblion ac maent yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod lles disgyblion yn agwedd y rhoddir blaenoriaeth gyson uchel iddi.

### Ciplun: Sefydlu diwylliant o anogaeth sy'n hyrwyddo ymddygiadau dysgu cadarnhaol

Mae staff yn cydweithio'n dda ar draws yr ysgol. Maent yn gweithio'n agos gyda disgyblion a rhieni i werthuso'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion, ac o ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth gref o anghenion emosiynol a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn manteisio ar ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol effeithiol sy'n datblygu eu gallu i gynorthwyo disgyblion a'u cydweithwyr. Mae staff yn trefnu rhaglenni cymorth hynod effeithiol sy'n cynnwys sesiynau unigol a gweithgareddau grŵp pwrpasol sy'n hyrwyddo gallu disgyblion i fyfyrio ar eu meddyliau a'u teimladau.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do wedi cael ei ailddylunio'n fedrus i hyrwyddo'r defnydd o ofodau diogel lle mae lliwiau lleddfol, adnoddau cyffyrddadwy a 'goleuadau hwyliau' yn creu naws sy'n cefnogi lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn derbyn gofal ac yn barod i ddysgu a ffynnu.

Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol ar draws yr ysgol a'r ffederasiwn i gynllunio profiadau dysgu diddorol a difyr sy'n ennyn chwilfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn tanio'u dychymyg yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn ystyried y cyd-destun lleol yn dda ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn briodol. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd eang sy'n cefnogi datblygiad anghenion cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ardaloedd awyr agored eang yr ysgol i hyrwyddo datblygiad medrau a lles disgyblion.

### Ciplun: Datblygu medrau cyfannol yn yr amgylchedd awyr agored

Mae disgyblion a staff wedi cydweithio'n agos i ddylunio a datblygu amgylchedd awyr agored ysgogol a deniadol yr ysgol. Caiff medrau corfforol gwerthfawr eu mireinio wrth i ddisgyblion ddringo, palu a chwilota yn ardaloedd y goedwig a'r ardd tra'n cymryd rhan mewn ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n cefnogi dilyniant eu medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol yn effeithiol. Mae disgyblion yn llawn cyffro am y cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored a gânt ac yn gwerthfawrogi'r effaith gadarnhaol a gaiff yr ardaloedd ar eu lles ysbrydol a meddyliol pan fydd angen ennyd dawel arnynt i fyfyrio.

Mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith cryf â disgyblion sydd wedi'u seilio ar barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cefnogi eu hanghenion dysgu a bugeiliol yn bwrpasol. Mae athrawon yn modelu iaith yn dda, er enghraifft pan fyddant yn cyflwyno ac yn annog defnydd o eirfa sy'n benodol i bwnc yn effeithiol. Mae bron pob un o'r staff yn defnyddio ystod addas o dechnegau holi i alw dysgu blaenorol disgyblion i gof a chadarnhau dealltwriaeth yn bwrpasol. Pan mae'r holi gan athrawon yn fwyaf effeithiol, mae'n cynorthwyo disgyblion i feddwl yn feirniadol, ehangu ar eu hatebion a chyfiawnhau eu barn. Ar adegau, mae adborth gan athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wneud gwelliannau priodol i'w gwaith. Fodd bynnag, mae adborth yn canolbwyntio'n rhy aml ar sillafu a gramadeg, ac nid yw'n amlygu'n gyson agweddau pwysig sy'n benodol i genre ar waith disgyblion y gellid eu gwella.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant darllen yn llwyddiannus. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gariad at ddarllen ac maent yn ymhel â deunydd ysgrifenedig yn frwdfrydig. Maent yn mwynhau dewis llyfrau newydd o'r peiriant dosbarthu llyfrau, yn arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen, ac erbyn iddynt gyrraedd Blynyddoedd 5 a 6, maent yn gwneud arsylwadau a barnau craff am ystod eang o destunau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad ac

ysgrifennu, yn enwedig yn Saesneg. Megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth i ddatblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg. Er bod lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn, mae eu defnydd o'r Gymraeg yn aml wedi'i gyfyngu i eirfa syml ac ychydig o ymadroddion sylfaenol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn datblygu eu medrau rhifedd dros gyfnod. Mae cyfleoedd i gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau dilys yn gyfyngedig. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau digidol. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o sut i aros yn ddiogel wrth weithio ar-lein ac maent yn cymhwyso'u medrau digidol yn hyderus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion arwain ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae disgyblion yn cymryd eu rolau a'u cyfrifoldebau o ddifri ac yn datblygu medrau pwysig fel cyfathrebu, cynllunio a chyllidebu. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o'r byd busnes, er enghraifft pan fyddant yn cydweithio i ddatblygu persawr wedi'i greu o flodau a dyfwyd yng ngardd yr ysgol sydd wedyn yn cael ei werthu yn siop y pentref.

Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol gyda rhieni a gyda'r gymuned leol. Mae arweinwyr yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol hygyrch i hysbysu rhieni'n rheolaidd am ddigwyddiadau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd gwaith cryf â grwpiau cymunedol a busnesau lleol. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan yn flynyddol yn yr eisteddfod leol a sioeau blodau'r pentref. Mae'r ysgol wedi'i ffedereiddio ag Ysgol Gellifor, sydd wedi'i lleoli gerllaw. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhannu corff llywodraethol a phennaeth.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/08/2025